



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Chwefror 2024 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 January 2024 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/**Councillors: Siân Maehrlein (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, John Adams-Lewis, Nick Bolton, Clive Davies, Olwen Davies, David Maehrlein, Teresa Harries, Richard Davies, Richard Jones, Philippa Noble, Trystan Phillips, Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd/**Translator), Mike Lewis (Tivy-side) a / and Eleri Maskell (**Clerc/**Clerk).

Hazel Lloyd Lubran, Prif Weithredwr, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion. Cyflwyniad ar y Cynllun Lles Newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diolchodd Ms Lubran i'r cynghorwyr am y cyfle i drafod y cynllun lles a lanswyd yn ddiweddar sy'n rhedeg dros bum mlynedd hyd at 2028. Y targed penodol yn y cynllun ar gyfer Aberteifi yw mynd i'r afael â chaledi ac anghydraddoldebau. Mae Ms Lubran hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'r ddwy rôl yn ei galluogi i dynnu ar yr holl ddarparwyr gwasanaethau yn Aberteifi ac annog cydweithio o fewn y prosiectau i gael yr effaith fwyaf posibl. Bydd y Cyngor Tref yn bwynt cyswllt i amlygu meysydd penodol lle mae angen ymyrraeth o ran yr economi, diwylliant, yr amgylchedd ond hefyd canolbwyntio ychydig ar les cymdeithasol a mynd i'r afael â chaledi, trwy gymysgu datrysiadau cymdeithasol a gwyrdd, i wella iechyd corfforol a meddyliol. Mae allgáu digidol, trafndiaeth yn enghreifftiau o faterion pellach y mae angen eu trafod.

Hazel Lloyd Lubran, Chief Executive, Ceredigion Association of Voluntary Organisations (CAVO) Presentation on the new Public Services Board Wellbeing Plan.

Ms Lubran thanked the councillors for the opportunity to discuss the recently launched wellbeing plan which runs over five years until 2028. The specific target in the plan for Cardigan is to tackle hardship and inequalities. Ms Lubran is also the Chair of the Public Services Board and both roles enable her to draw on all providers of services in Cardigan and to encourage collaboration within the projects for maximum effect. The Town Council will be a contact point to highlight specific areas where intervention regarding economy, culture, environment are required but also focusing slightly on social wellbeing and tackling hardships, through mixing social and green solutions, to improve physical and mental health. Digital exclusion, transport are examples of further issues which need to be discussed.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cynghorydd Siân Maehrlein, y cynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Llongyfarchwyd Cyng Olwen Davies ar dderbyn Gwobr Cleddyf Wilkinson am ei chyfraniad i fyd chwaraeon moduro. Cafodd y Cynghorydd Davies y cleddyf yn ystod digwyddiad a gynhaliwyd gan Gymdeithas Clybiau Modur Cymru yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod y penwythnos diwethaf. Dywedodd y Cyng Davies ei bod yn braf iawn derbyn y

wobr oherwydd ein bod yn ymwybodol o enillwyr blaenorol sy'n adnabyddus yn y diwydiant chwaraeon moduro.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Siân Maehrlein, welcomed the councillors to the meeting and thanked them for their presence. Congratulations were offered to Cllr Olwen Davies for receiving the Wilkinson Sword Award for her contribution to the world of motorsport. Cllr Davies was given the sword during an event hosted by the Welsh Association of Motor Clubs in the Metropole Hotel, Llandrindod Well last weekend. Cllr Davies commented that it was very humbling to receive the award due to being aware of previous winners who are well known in the motorsport industry.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Cyng Elaine Evans, materion personol; Cyng Stephen Greenalgh, salwch.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Elaine Evans, personal reasons; Cllr Stephen Greenalgh – ill health.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Olwen Davies	<i>Gohebiaeth Rhif 264 / Correspondence Number 264 – mae'r cynghorydd yn cael ei gyflogi gan fanc ac ni fydd yn cwblhau'r arolwg ynghylch gwasanaethau bancio yng Ngheredigion / the councillor is employed by a bank and will not be completing the survey regarding banking services in Ceredigion.</i>
----------------------------	---

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 9 Ionawr 2024.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 9 Ionawr yn gywir.

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod cylliad a gynhaliwyd nos Fawrth 16 Ionawr 2024.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod cyllid a gynhaliwyd Nos Fawrth 16 Ionawr yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday, 9 January 2024.

The Councillors proposed that the Tuesday, 9 January council meeting minutes be recorded as correct.

To approve and sign minutes of the budget meeting held on Tuesday 16 January 2024.

The Councillors proposed that the Tuesday, 16 January council budget meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2024.

- **Mae'r llinellau gwyn newydd ar gyfer maes parcio Brenin Siôr V wedi'i gwblhau, a chafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.**

- Mae Rhiannon John, Swyddog Datblygu Gwledig, CSC wedi cytuno i gwrdd â'r cyngor ar nos Fawrth 27 Chwefror am 6.00yh yn yr ystafell gyfarfod, Tŷ Cadwgan i drafod ein prosiectau mwyaf dymunol ar gyfer y dyfodol ac i gynorthwyo gyda chyllid grant.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 9 January 2024.

- The line painting for the King George V car park has been completed, positive feedback has been received from Advisory Committee members.
- Rhiannon John, Rural Development Officer, CCC has agreed to meet with the council on Tuesday 27 February at 6.00pm in the meeting room, Ty Cadwgan to discuss our most desired future projects and to assist with grant funding.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Ni nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A240038	<i>John Davies JJ Davies, plot Adjacent to 20 Castle Street, Aberteifi, SA43 3AB.</i>	<i>Cais cynllunio i godi dau dŷ newydd / Proposed erection of two new dwellings.</i>	<i>Nid yw'r Cyngor yn cefnogi'r cais hwn oherwydd y gwrthwynebiadau a nodir ar y wefan cynllunio / Council do not support this application due to the objections already noted on the planning website.</i>

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/02/24	<i>Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Chwefror/February) Band Lydan (Chwefror) / Broadband (February)</i>	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
06/02/24	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ionawr/January)</i>	A5	BACS	£1381.88(0.00)
06/02/24	<i>HMRC – Taliad TWE ar gyfer 6 Rhagfyr 2023 - 5 Ionawr 2024 / PAYE payment for 6 December 2023 – 5 January 2024.</i>	A16	BACS	£266.71(0.00)
18/01/24	<i>Gwasanaeth cyfieithu/Translating service</i>	A18	BACS	£78.75(0.00)

05/01/24	Sharp – Photocopying fees (08-11/2023)	A7	BACS	£69.53(11.59)
12/01/24	CSO Garden Services	A19	BACS	£41.25(0.00)
05/02/24	PEAC Solutions – Lease rental photocopier	A7	D/D	£121.20(20.20)
31/01/24	Glamorgan White Lining – King George V Car Park	C3	BACS	£780.00(130.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/01/2024	Lloyds Bank: <i>Llog</i> / Interest	£91.64
31/01/2024	<i>Rhent Clwb Bowlio Aberteifi</i> / Cardigan Bowling Club Rent	£400.00

b) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
247	<i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales – Rachel Carter, <i>Swyddog lleoedd lleol ar gyfer Natur</i> / Local Places for Nature Officer: <i>Digwyddiad Ar-Lein – Buglife Cymru 31 Ionawr</i> / On-Line event Buglife Wales 31 January.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 08/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/01/2024.
248	Steve Rice – <i>Cyfeillion Pwll Nofio Aberteifi: Diweddariad a chais am grant.</i> Friends of Cardigan Swimming Pool: Update and request for a grant.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 08/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 08/01/2024.
249	Sarah Powell-Barker, Antur Cymru: <i>Digwyddiad Lansio Cymorth Busnes Lleol</i> / Local Business Support Launch Event.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 09/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/01/2024.
250	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: D-Day 80 – <i>Diweddariad y Flwyddyn Newydd</i> / New Year Update.	<i>Y Cyng Richard Davies i arwain ar ddathliadau D Day-80 ac i ffurfio gweithgor</i> / Cllr Richard Davies to take the lead on the D Day-80 celebrations and to form a working group.
251	Colin Luker – Llwybr troed o Netpool i Mwldan Canol / Footpath from Netpool Road to Middle Mwldan.	<i>Mae'r Cynghorwyr Philippa Noble ac Elaine Evans wedi bod mewn cysylltiad â Mr Luker ac wedi datrys y mater presennol</i> / Councillors Philippa Noble and Elaine Evans have been in contact with Mr Luker and resolved the current issue.
252	Y Cyng Bryan Davies, <i>Arweinydd y Cyngor</i> /Leader of the Council a Eifion Evans, <i>Prif Gweithredwr CSC</i> /Chief Esecutive CCC: <i>Rhybudd cyn gosod praesept ynghylch toriadau i wasanaethau oherwydd cyfyngiadau cyllidebol</i> /Pre-precept setting warning regarding service cuts due to budget constraints.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 11/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/01/2024.
253	<i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Cyflwyniad I David Collins – Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethiant a Pholisi</i> / Introduction to David Collins – Governance and Policy Practice Development Officer.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 12/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/01/2024.
254	Janice Thomas – <i>Swyddog Cyfathrebu</i> / Communication Officer BARCUD: <i>Gwahoddiad I rhagolwg hystâd ar Heol Dinbych y Pysgod, Aberteifi</i> / Invitation to an estate viewing on Tenby Road, Cardigan.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 15/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/01/2024.
255	Stephen Harry – <i>Prif Gomisinydd Gwasanaethau Ambiwylans</i> / Chief Ambulance Services Commissioner: <i>Adolygiad Gwasanaeth Diweddariad Cam 3</i> / Service Review Phase 3 Update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/01/2024.
256	<i>Cronfa Cynnal y Cardi, Cefnogi Busnesau Lleol – Datganiad ail agor y cronfa</i> / Cynnal y Cardi Fund, supporting local communities and businesses, fund reopening announcement.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 17/01/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/01/2024.

257	CSC Adain Cau Ffyrrd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Maesglas 17/01/2024 – 19/01/2024 0800-18.00 yn dyddiol / daily.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/01/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 17/01/2024.
258	Rhiannon John – Swyddog Datblygu Trefi Gwledig, CSC / Rural Towns Development Officer, CCC: Cynllun Effeithlonrwydd Ynni – Grantiau gosod ar agor nawr / Energy Efficiency scheme – Installation grants now open.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/01/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 17/01/2024.
259	Y Cyng/Cllr Elaine Evans - Prynu biniau graeanu / Purchasing gritting bins.	Clerc i ofyn i CSC i adolygu cynlluniau graeanu i gynnwys Rhodfa'r Felin a ffyrdd mynediad y gwasanaethau brys. Nid yw'n ymarferol i'r Cyngor Tref ddarparu biniau graeanu ar gyfer y dref gyfan / Clerk to request CCC to revise gritting plans to include Rhodfa'r Felin and emergency services access roads. It is not practical for the Town Council to provide gritting bins for the whole town.
260	Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rachel Carter, Swyddog Lleuedd Lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature Officer: Gweithredu Llwybrau Gwyllt / Implementing Wild Pathways.	Nid yw'n brosiect blaenoriaeth uchel i'r cyngor ar hyn o bryd / Not a high priority project for the council currently.
261	Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner: Gwahoddiad I Cynhadledd Gwyl Dewi 2024 / Invitation to St David's Conference.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 19/01/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 19/01/2024.
262	Jean Hadjouti-Gaillard - Cyngorydd wedi ei ddirprwyo i gefeillio: Gwahoddiad i ddigwyddiad "Brioude fete l'Europe" / Municipal councillor delegated to twinning: Invitation to the "Brioude fete l'Europe" event.	Bydd y Cyng Catrin Miles yn holi am fwy o fanylion ac yn adrodd yn ôl i'r cyngorwyr. Mynegodd y Cyng Olwen Davies ddiddordeb i fod yn bresennol fel y Maer fis Mai nesaf / Cllr Catrin Miles will enquire for more details and report back to the councillors. Cllr Olwen Davies expressed an interest to attend as the Mayor next May.
263	Ray Davies – Rheolwr Gweithredol / Operational Manager Maes Mwldan: Diweddariad Diogelwch Tân / Fire Safety Update.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 23/01/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 23/01/2024.
264	Ben Lake AS/MP: Arolwg yn ymwneud â gwasanaethau bancio / Survey relating to banking services.	Cytunodd y Cyngorwyr i ymateb i'r arolwg yn unigol / Cllrs agreed to respond to the survey individually.
265	Wendi Patience – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cofnodion Drafft Pwyllgor Ardal Ceredigion / Draft Minutes of the Ceredigion Area Committee.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 24/01/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 24/01/2024.
266	Deb Jeffreys – Swyddog Ymgysylltiad a Datblygu Cymunedol, Cymorth Cynllunio Cymru / Community Engagement and Development Officer, Planning Aid Wales: Hyfforddiant Cynlluniau Datblygu Strategol / Strategic Development Plans Training.	Nid oedd cyngorwyr yn ystyried bod yr hyfforddiant hwn yn hanfodol / Councillors did not consider this training to be essential.
267	Mathew Roebuck – Swyddog Gweithgarwch a Chwarae Corfforol Cymunedol, Canolfan Hamdden Aberteifi / Community Physical Activity and Play Officer, Cardigan Leisure Centre: Cwrs Chwarae Lefel 1 / Play Level 1 course.	Nid yw'r cwrs yn berthnasol i gyngorwyr / The course is not relevant for councillors.
268	Wendi Patience – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Lleuedd am ddim TG, Gwefannau a Chyfyngau Cymdeithasol / Free places, Use of IT, Websites and Social Media Training.	Cyng Olwen Davies a'r Clerc i fynychu'r hyfforddiant yma / Cllr Olwen Davies and the Clerk to attend this training.
269	Cheryl Davies – Preswylydd o North Road yn gohebu am y sefyllfa parcio / Resident from North Road corresponding about the parking situation.	Mae'r Cyngorwyr yn cydymdeimlo'n llwyr â'r sefyllfa ar Ffordd y Gogledd ac yn credu bod materion tebyg ledled y dref. Yn anffodus, mae pob mater parcio o dan awdurdodaeth CSC a thu hwnt i reolaeth y cyngor tref / Cllrs fully empathise with the situation on North Road and believe there are similar issues throughout the

		town. Unfortunately, all parking issues are under the jurisdiction of CCC and beyond the control of the town council.
270	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Y Stryd Fawr / High Street 25/02/2024 0500-18.00 yn dyddiol / daily.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
271	Wendi Patience – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Parti yn gardd Palas Buckingham, ffurflen enwebu Cyngorydd / Buckingham Palace Garden Party, councillor nomination form.	Mynegodd y Cyngorwyr Siân a David Maehrlein ddiddordeb mewn gwneud cais i fynychu'r parti / Cllrs Siân and David Maehrlein expressed an interest to apply to attend the Garden Party.
272	Argymhelliad adolygiad o ddyfodol canolfan ambiwlans awyr y Trallwng / The future of Welshpool air ambulance base review recommendation.	Cytunodd y Cyngorwyr i ymateb yn unigol / Cllrs agreed to respond individually.
273	Cronfa Cynnal y Cardi, Cefnogi Busnesau Lleol – Datganiad ail agor y cronfa / Cynnal y Cardi Fund, supporting local communities and businesses, fund reopening announcement.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
274	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 27 Mawrth 2024 / One Voice Wlaes National Awards Conference 27 March 2024.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
275	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Maesglas 17/01/2024 – 19/01/2024 07/02/2024 0800-18.00 yn dyddiol / daily.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
276	Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rachel Carter, Swyddog lleoedd lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature Officer: Buglife Cymru dolen ar gyfer adnoddau newydd / Buglife Wales link for new resources.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
277	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Digwyddiad ar y cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru – Dydd Iau 7 Mawrth 2023 o 10.00yb tan 2.00yp (ar lein) / Joint event One Voice Wlaes and Palning Aid Wales – Thursday 7 March 2024 from 10.00am until 2.00pm (remote).	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
278	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Hywel Dda University Health Board: Argymhelliad ar gyfer lleoliad addas ar gyfer brechiadau Covid / Recommendation for suitable Covid vaccinations venue.	Mae'r Cyngorwyr yn argymhell Pwll Nofio Aberteifi fel safle brechu posib / Cllrs recommend Cardigan Swimming Pool as a possible vaccination site.
279	Janice Thomas – Swyddog Cyfathrebu / Communications Officer, Barcud: Dosbarth Garddio yn Llanbedr Pont Steffan / Gardening Class at Lampeter.	Bydd yr ohebiaeth hon yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf oherwydd bod y Cyngorydd Elaine Evans yn absennol / This correspondence will be discussed at the next meeting due to Cllr Elaine Evans being absent.
280	Jeff Smith - Cadeirydd Rhanbarth Ceredigion Cymdeithas yr Iaith / Chairman for Ceredigion: 2 categori newydd, Erthygl 4 / Change in planning categories, article 4.	Penderfynodd y Cyngorwyr gefnogi cais Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i ofyn i CSC gyflwyno gorchymyn cynllunio Erthygl 4 ar draws y sir / Cllrs resolved to support the request from the Welsh Language Society to request CCC to introduce Article 4 planning order across the county.
281	Evan Musgrave, Kooth - Cylchlythyr mis Chwefror ar gyfer gwasanaethau lleol / February newsletter for local services.	Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 05/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 05/02/2024.
282	Eglwys Santes Fair / St Mary's Church: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.	I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill. To be discussed at the April Grants Sub-committee.
283	Sioe Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Show: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.	I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill. To be discussed at the April Grants Sub-committee.

- c) **Adolygiad yr Asesiad Risg, Model Cynllun Cyhoeddi, Strategaeth Buddsoddi, Rheoliadau Ariannol a Polisi yr Iaith Cymraeg. Copiau wedi ei flaenyrru drwy e-bost. Cymeradwywyd a mabwysiadwyd yr Asesiad Risg, Model Cynllun Cyhoeddi, Strategaeth Buddsoddi, Rheoliadau Ariannol a Polisi yr Iaith Cymraeg gan y cyngor ac arwyddwyd gan y Maer, y Cyng Siân Maehrelin.**
Review of the Risk Assessment, Model Publication Scheme, Annual Investment Strategy, Financial Regulations and the Welsh Language Policy. Copies forwarded by email.
The Risk Assessment, Model Publication Scheme, Annual Investment Strategy, Financial Regulations and Welsh Language Policy were approved and adopted by the council and signed by the Mayor, Cllr Siân Maehrelin.
- d) **Tynnu I lawr a storio goleuadau Nadolig.**
Penderfynodd y Cyngorwyr logi uned storio 20 troedfedd x 8 troedfedd oddi wrth Mark Jukes Containers ar iard Parc Piliau am gost o £1000 + TAW y flwyddyn. Bydd y goleuadau Nadolig yn cael eu tynnu ddydd Sul 25 Chwefror.
Removal and storage of Christmas lights.
Cllrs resolved to hire a 20ft x 8ft storage unit from Mark Jukes Containers on the yard at Parc Piliau at a cost of £1000 + VAT per annum. The Christmas lights will be removed on Sunday 25 February.
- e) **D Day 80.**
Y Cyng Richard Davies i arwain ar ddatliadau D Day-80 ac i ffurfio gweithgor.
Cllr Richard Davies to take the lead on the D Day-80 celebrations and to form a working group.
- f) **Taith Dydd Gwyl Dewi.**
Penderfynodd y Cyngorwyr gefnogi'r digwyddiad hwn trwy dalu am gau'r ffordd yn flynyddol. Mae'r Clerc yn gweithio ar y cais ar hyn o bryd ond nid yw eto wedi sicrhau cymeradwyaeth CSC, felly nid yw'r gost arfaethedig yn hysbys eto, y gobaith yw y bydd yn llai na £500.
St David's Day March.
Cllrs resolved to support this event by paying for the road closure on an annual basis. The Clerk is currently working on the application but is yet to secure the approval from CCC, therefore the proposed cost is not yet known, it is hoped to be less than £500.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

- a) **Dyddiadur y Maer / Mayor's Diary**
- **Lansiad Cefnogaeth Busnes Lleol, 43 Pendre, Stryd Fawr Aberteifi: Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU, a arianir gan Leveling Up, a'i gyflwyno gan Antur Cymru ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r cymorth ar gyfer busnesau cyn-cychwyn, newydd a phresennol yn Ne Ceredigion, gan ddarparu cyngor busnes arbenigol a chyfle i fusnesau brofi masnach yn siop stryd fawr newydd Aberteifi. Mae'r prosiect hwn wedi'i ddatblygu o lwyddiant CRF New Skills NewStart yn Aberystwyth yn ystod 2022.**
 - **Pleser oedd cyfarfod ag Anth Brown a'i wraig Helen, yn ystod gwasanaeth Mount Seion a drefnwyd i groesawu'r gweinidog newydd. Mwynhawyd gwasanaeth hyfryd ochr yn ochr â'r Cyngorwyr Olwen Davies a John Adams-Lewis. Dymunwn y gorau i'r cwpl ac aelodau Mount Seion ar gyfer y dyfodol.**
 - **Braint oedd cael ail-agor siop losin boblogaidd Yum Yums, sydd wedi'i cholli'n fawr ers ei chau yn ddiweddar. Dymunwn bob llwyddiant i Tracy a'i thîm, mae mor dda cael y siop yn ôl.**
 - **Ymunasom â Phwyllgor Dydd Sadwrn Barlys ar gyfer eu cinio blynyddol yn y Teifi Waterside. Diolch am y gwahoddiad a'r croeso cynnes a roddwyd gan bawb.**

- Attended the launch of the Local Business Support, 43 Pendre, Cardigan High Street. This project is funded by the UK Government, driven by Levelling Up, and delivered by Antur Cymru working with Ceredigion County Council. The support is for pre-start, new and existing businesses in South Ceredigion, providing expert business advice and an opportunity for businesses to test trade in the new Cardigan high street shop. This project has been developed from the success of the CRF New Skills New Start in Aberystwyth during 2022.
- It was a pleasure to meet Anth Brown and his wife Helen, during the Mount Zion service organised to welcome to the new minister. We enjoyed a lovely service alongside Cllrs Olwen Davies and John Adams-Lewis. We wish the couple and members of Mount Zion the very best for the future.
- It was a privilege to re-open the popular Yum Yums sweet shop, which has been very much missed since its recent closure. We wish Tracy and her team every success, it's so good to have the shop back.
- We joined the Barley Saturday Committee for their annual dinner at the Teifi Waterside. Thank you for the invitation and the warm welcome provided by all.

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan.

- **Mae Cymdeithas y Cyfeillion wedi trefnu cludiant i alluogi trigolion lleol o'r dref a'r pentrefi cyfagos i fynychu apwyntiadau yn y Ganolfan Gofal Integredig. Maent i'w llongyfarch ar eu hymdrechion i sefydlu'r gwasanaeth hwn, y mae mawr ei angen. Mae manylion cyswllt y gwasanaeth yn cael eu rhannu'n eang ar hyn o bryd.**
- **Gwahoddwyd pob un o'r cynghorwyr tref gan Barcud i ymweld â'r tai sydd newydd eu hadeiladu ar Ffordd Dinbych-y-pysgod. Mae'r anheddau o safon uchel iawn ac rwy'n siŵr y bydd y trigolion newydd yn hapus iawn yno.**

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward.

- The League of Friends have arranged transport to enable local residents from the town and our surrounding villages to attend appointments at the Integrated Care Centre. They are to be congratulated for their efforts in establishing this much needed service. The contact details for the service are currently being shared widely.
- All of the town councillors were invited by Barcud to visit the newly built houses on Tenby Road. The dwellings are of a very high standard and I am sure that the new habitants will be very happy there.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- **Mae'r llwybr troed yn Drawbridge wedi'i glirio unwaith eto gan CSC ar ôl derbyn e-bost gan breswlydd. Mae angen inni ymchwilio i sut y gellir datrys y broblem hon yn barhaol yn lle gorfod clirio'r llwybr yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn rhydd o fwd ac yn ddiogel i bobl ei ddefnyddio.**
- **Mae'r rhyngrwyd yn Stryd Morgan wedi rhoi'r gorau i weithio eto. Achosodd gwaith atgyweirio gan dechnegwyr i'r rhwydwaith dorri i lawr. Rwyf wedi cysylltu â Rheolwr Rhaglen Ddigidol CSC i fynd ar drywydd y mater. Bu'r Cyng Olwen Davies, yn garedig**

iawn, yn fynd o ddrws i ddrws unwaith eto yn gofyn i drigolion gysylltu â'u darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd.

- Roedd y palmentydd yn hynod o llithrig yn ystod yr ysbaid oer a gawsom ganol Ionawr, gydag adroddiadau am bobl yn llithro ac yn disgyn ar Heol Dinbych-y-pysgod, Stryd y Castell, ar hyd y bont droed, o gwmpas heibio'r Dyfrgi, ar hyd Rhodfa'r Felin a'r ffyrdd sy'n arwain ati. Nid yw'r Cyngor yn cyflenwi biniau graean nawr, ond mae'r cyngor tref yn gallu eu prynu, am gost o £240. Byddai angen caniatâd CSC ar y safleoedd lle maent wedi'u lleoli. A yw cynghorwyr yn ystyried hwn yn wasanaeth newydd y dylai'r Cyngor Tref ei ddarparu?
Mae biniau graean sy'n dod o dan gyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel a ganlyn:
Teras Teifi, Ffordd Llandudoch;
Stryd Mwldan Isaf;
Greenfield Row;
Stad Maesycoed;
Ffordd Gwbart (tu allan i Allt yr Afon).
- Yn dilyn gweithdy Bioamrywiaeth tair rhan y mae cynghorwyr wedi bod yn ei fynychu, mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda mi, Rachel Aukland sy'n Gydlynnydd Partneriaeth Natur Leol a chymdeithasau tai lleol.
- Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi. Dywedodd adroddiad gan grantiau Cynal y Cardi, a gaeodd y llynedd, fod 83 o geisiadau busnes a 27 o geisiadau am grantiau cymunedol yn llwyddiannus. Mae'r ffenestr grant nesaf yn agor ar 1 Chwefror.
- Mae adroddiad gan Arfor, sy'n rhwydwaith o bedair sir, sy'n canolbwyntio ar fudd a dyfodol y Gymraeg, wedi dyrannu £48,000 i brosiectau i ddatblygu'r sector bwyd a fydd o fudd i Rwydwaith Bwyd Ceredigion. Cynhaliwyd trafodaethau ychwanegol am fapio ardaloedd tyfu, gwelyau uchel a rhandiroedd.
- Cafwyd adroddiad gan Emily Edwards, Rheolwr y Bartneriaeth Gymunedol, ar ei gwaith ar Brosiect Aberteifi ac ysgolion cymunedol. Mae hi wedi sicrhau cyllid ar gyfer y murluniau a gwblhawyd gan fyfyrwyr Ysgol Uwchradd Aberteifi, mae un wedi'i wneud yn yr ysgol ac mae cynlluniau ar gyfer un ym Mhendre ar siop newydd Funkee Moon Fabrics. Mae'r clybiau gwaith cartref yn yr ysgol hefyd yn profi'n llwyddiannus.
- Siaradodd Carwyn Young am yr astudiaeth ddichonoldeb sydd wedi cael 372 o ymatebion ar-lein a 5 ymateb ysgrifenedig ynglŷn â'r Ganolfan Llesiant newydd yn Aberteifi. Mae grwpiau ffocws a wahoddodd yr aelodau a ymatebodd wedi'u cynnal, ac o ganlyniad roedd rhai o'r materion yn cynnwys diffyg dosbarthiadau nos, a phwyntiau cyfarfod cymdeithasol. Mae'r ganolfan les yn flaenoriaeth yn Rhaglen Gwaith Cyfalaf Ceredigion.
- Mae rhagor o dipio anghyfreithlon wedi bod yng Nghoed Mwldan ger y Capel Gorffwys. Ar ôl cysylltu â Choed Cadw, fe gytunon nhw i roi gwybod i'w tîm ystâd i'w glirio ac o bosibl edrych ar y bwlch yn y clawdd. Yn anffodus, fel elusen gydag adnoddau cyfyngedig nid oes ganddynt y staff ar gael i plismona safleoedd ar gyfer defnydd amhriodol fel hyn sy'n ei gwneud yn anodd iawn i'w reoli, yn enwedig pan fo'r rhan fwyaf o'n coetiroedd yn rhad ac am ddim i aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddynt ar unrhyw adeg. Dylid hefyd rhoi unrhyw faterion tipio anghyfreithlon i'r heddlu lleol ar 101 gyda'r manylion.
- Mae'r tai Barcud newydd yn Heol Dinbych-y-pysgod yn dai hyfryd iawn. Roedd yn dda i Barcud drefnu'r daith i'r cynghorwyr.
- Mae'r diffyg cyfeirio at Ganolfan Iechyd Integredig Aberteifi, yr wyf wedi bod yn cwyno amdano, wedi arwain at gyfarfod rhwng Phil Jones o Briffyrdd CSC a Mr Peter Skitt o Hywel Dda. Mae yna broblem ryfedd gyda'r cod post, sy'n gwneud i'ch satnav

fynd â chi i Home James Taxis. Cytunwyd y byddai Mr Skitt yn adolygu'r cyfathrebiadau ar wefan Hywel Dda i gynnwys gwell mapio a defnydd o dechnolegau eraill – 'pa 3 gair' er enghraifft a hefyd gysylltu â swyddfa'r post ynghylch mater cod post. Maent yn mynd i gael cyfarfod arall unwaith y bydd Hywel Dda wedi adolygu eu cyfathrebiadau / gwefan / ac ati. Er, nid yw hyn yn newid y ffaith nad oes unrhyw arwyddion, ond nid yw'r naill barti na'r llall wedi ymrwymo i'w darparu. Hysbysodd swyddogion CSC Google i wneud newid i'r map cod post ar gyfer cod post Canolfan Iechyd Integredig Aberteifi sydd bellach wedi'i gywiro. Os chwiliwch y cod post SA43 1JX mae nawr yn mynd â chi i'r lleoliad cywir. Maent wedi hysbysu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am y datblygiad hwn. Dylai helpu'r rhai nad ydynt yn gwybod ble mae'r CIHC sy'n defnyddio satnav, ond fel y dywedais, heb unrhyw benderfyniad o hyd o ran cyfeirio.

- Mae Rachel Aukland, sef cydlynnydd Partneriaeth Natur Leol Ceredigion, yn gweithio gyda mi i chwilio am rywfaint o arian Lleodedd Lleol i Natur ar gyfer cynnal arolygon ecolegol yng Ngwlyptir y Mwldan, er mwyn llywio'r cam nesaf o wneud penderfyniadau. Soniodd hefyd am y posibilrwydd o gael cwch patrôl ar gyfer ardal Aberteifi a fyddai'n sicrhau nad yw bywyd gwyllt y môr yn cael ei darfu – mae hyn yn ei ddyddiau cynnar. Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Natur i wella'r llwybr pren yn y parc bywyd gwyllt.
- Mynychodd y Cynghorwyr Sian Maehrlein, Olwen Davies a minnau y cyfarfod a drefnwyd gydag Eifion Evans, Prif Weithredwr CSC a chynghorau tref a chymuned lleol yn Ysgol Uwchradd Aberteifi. Soniais am y posibilrwydd y gallai'r cyngor tref o bosibl gymryd maes parcio drosodd i gynhyrchu incwm i gyngor tref o ystyried bod y cyngor yn edrych i ddadlwytho gwaith i gynghorau tref a chymuned.

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- The footpath at Drawbridge has been cleared once more by CCC after an email was received by a resident. We need to investigate how this problem can be permanently resolved instead of having to regularly clear the path to make sure it is free from mud and safe for people to use.
- The internet at Morgan Street has ceased to work again. Repair work by technicians caused the network to break down. I have contacted CCC Digital Programme Manager contacted to follow the issue up. Cllr Olwen Davies, kindly went door to door once again asking residents to contact their internet service providers.
- The pavements were incredibly slippery during the cold spell we had mid-January, with reports of people slipping and falling on Tenby Road, Castle Street, along the footbridge, around past the Otter, along Rhodfa'r Felin and the roads leading to it. The Council don't supply grit bins now, but the town council are able to purchase them, at a cost of £240 with grit inside. Permission would be required from CCC on the sites where they are placed. Do councillors consider this to be a new service the Town Council should provide?
Grit bins that fall under the local authority's responsibility are as follows:
Teifi Terrace, St Dogmaels Road;
Lower Mwldan Street;
Greenfield Row;
Maesycloed Estate;
Gwbart Road (outside Allt yr Afon).

- Following a three-part Biodiversity workshop that councillors have been attending, a meeting has been arranged with myself, Rachel Aukland who is the Local Nature Partnership Coordinator and local housing associations.
- I am currently working closely with the Public Service Board which is tackling hardship in Cardigan. A report from the Cynal y Cardi grants, which closed last year, stated 83 business and 27 community grant bids were successful. The next grant window opens on 1st February.
- A report from Arfor which is a network of four counties, focusing on the benefit and future of the Welsh language have £48,000 allocated to projects to develop the food sector which will benefit the Ceredigion Food Network. Additional discussions about mapping growing areas, raised beds and allotments were held.
- Emily Edwards the Community Partnership Manager gave a report on her work on Project Aberteifi and community schools. She has secured funding for the murals completed by students from Ysgol Uwchradd Aberteifi, one has been done at the school and there are plans for one at Pendre on the new Funkee Moon Fabric shop. The homework clubs at the school are also proving to be successful.
- Carwyn Young spoke about the feasibility study which has received 372 online responses and 5 written ones regarding the new Wellbeing Centre in Cardigan. Focus groups which invited members who responded have been held, and as a result some of the issues included a lack of evening classes, and social meeting points. The wellbeing centre is a priority in Ceredigion's Capital Work Program.
- There has been further fly tipping at Coed Mwldan near the Chapel of Rest. On contacting the Woodland Trust, they agreed to inform their estate team to clear it and possibly look at the gap in the hedge. Unfortunately, as a charity with limited resources they do not have the staff available to police sites for inappropriate use like this which makes it very difficult to control, particularly when most of our woodlands are free to access by members of the public at any time. Any fly tipping issues should also be given to the local police force on 101 with the details.
- The new Barcud houses in Tenby Road, are really lovely houses. It was good of Barcud to organise the tour for the councillors.
- The lack of signposting to the Cardigan Integrated Health Centre, which I have been complaining about has resulted in a meeting between Phil Jones from CCC Highways and Hywel Dda's Mr Peter Skitt. There is a strange issue with the post code, which makes your satnav take you to Home James Taxis. It was agreed that Mr Skitt reviews the communications on Hywel Dda's web site to include better mapping and use of other technologies – 'what 3 words' for example and also contact the post office regarding the post code issue. They are going to have another meeting once Hywel Dda have reviewed their comms / web site / etc. Although, this doesn't alter the fact that there are no signs, but neither party are committed to providing any. CCC officers notified Google to make a change to the postcode map for Cardigan Integrated Health Centre postcode which has now been corrected. If you search the postcode SA43 1JX it now takes you to the correct location. They have informed HDUHB of this development. It should help those who do not know where the CIHC is located that use satnav, but as I said, still no resolution on signposting.
- Rachel Aukland who is the coordinator of Ceredigion Local Nature Partnership, is working with me to look for some Local Places for Nature funding for conducting ecological surveys at the Mwldan Wetland, to inform the next stage of decision-making. She also talked about the possibility of a patrol boat for the Cardigan area which would make ensure sea wildlife isn't disturbed - this is in its infancy. They are also partnering with the Wildlife Trust to improve the boardwalk at the wildlife park.

- Cllrs Sian Maehrlein, Olwen Davies and myself attended the arranged meeting with Eifion Evans, Chief Executive CCC and local town and community councils at Ysgol Uwchradd Aberteifi. I mentioned the possibility of the town council possibly taking over a carpark to generate income for town council seeing as the council are looking to offload work to town and community councils.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handy person's Report.

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**
Mae difrod i'r gorchudd plastig amddiffynnol ar y llinell sip, mae angen cysylltu â'r cyflenwyr am waith atgyweirio. Bydd tâp yn cael ei ddefnyddio i orchuddio sedd sydd wedi torri i atal sblintio, mae angen ailosod y seddi siglo bach hyn. Mae angen llenwi twll bach yn Merry Go Round i atal y risg o ddal bysedd. / There is damage to the protective plastic cover on the zip line, the suppliers need to be contacted for repair work. Tape will be used to cover a broken seat to prevent splintering, these small rocker seats need replacing. Small hole in Merry Go Round needs filling to prevent risk of fingers getting caught.
- ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**
Mae angen chwistrellu ardal o'r cyrtiau tenis gyda chwynladdwr. Mae angen gwaith adfer ar y landeri a'r plastr ar ystafelloedd newid y clwb rygbi, bydd e-bost a lluniau yn cael eu hanfon at aelodau'r pwyllgor. Mae twll yn rhwyd y cwrt tennis, a bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i osod y rhwyd sydd wedi'i hadnewyddu ac sy'n cael ei storio o dan y stand. Mae angen gwaith atgyweirio ar yr holl rwyll wifrog ar ochr a chefn y cwrt a'u gosod yn eu lle. / An area of the tennis courts need to be sprayed with weedkiller. The guttering and plaster on the rugby club changing rooms need remedial work, email and pictures will be sent to the committee members. There is a hole in the tennis court net, attempts will be made to install the recently replaced net which is in storage under the stand. All of the wired mesh at the side and back of the court needs repair work and securing back in place.
- iii. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**
Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.
- iv. **Cyffredinol / General**
Mae holl blannwyr wedi eu gosod yn y dref. Mae swyddogion CSC wedi gofyn am gael gwared â'r hysbysfwrdd sydd wedi'i leoli agosaf at adeilad allanol Tafarn y Castell oherwydd strwythur anniogel yr adeilad. Mae'n bosibl y gallai'r ffens gyferbyn â'r Eglwys Gatholig sy'n rhedeg o'r Clwb Bowlïo i Greenland Meadows gael ei hatgyweirio ac yna ei phaentio gan brosiectau gwasanaethau cymunedol. Mae angen gosod arwydd newydd peidiwch â hysbysebu ar gornel Greenland Meadows. Mae'r torchau wedi'u tynnu o'r senotaff.
 All the planters have now been distributed through the town. CCC officers have requested that the notice board located nearest the outbuilding of the Castle Pub be removed due to the unsafe structure of the building. The fence opposite the Catholic Church which runs from the Bowling Club to Greenland Meadows could possibly be repaired and then painted by community service projects. A new please do not advertise sign needs to be replaced up on the Greenland Meadow corner. The wreaths have been removed from the cenotaph.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf.

Gohebiaeth 279 – Dosbarthiadau garddio yn Llanbedr Pont Steffan.

Lleoliad Hysbysfwrdd.

Ffordd fynediad gefn ar gyfer North Road.

Arwyddion 20mya ar gyfer Rhos y Dre, Maes yr Haf a Maeshenffordd.

Dyddiad Cyfarfod Blynnyddol y Fenter.

Items for the next Agenda

Correspondence 279 – Gardening classes in Lampeter.

Notice Board Location.

Rear access road for North Road.

20mph signs for Rhos y Dre, Maes yr Haf and Maeshenffordd.

Date for the Menter AGM.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.05pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date